

Cyngor Cymuned Mawddwy

Clerc: Mr Huw T. Jones, Henllys, Mallwyd, Machynlleth, Powys. SY20 9HS.

 01650 531 405

E bost: huwjones792@btinternet.com

27ain Mehefin 2022

Annwyl Gyfaill

Cynhelir cyfarfod nesaf CYNGOR CYMUNED MAWDDWY Nos Fercher y 6ed o Orffennaf 2022 am 8.00pm yn y Neuadd, Dinas Mawddwy.

Nodyn ar gyfer y cyhoedd. Mae croeso i'r cyhoedd arsylwi ar gyfarfodydd y Cyngor fel arfer, gan gynnwys gwneud hynny yn rhithiol os oes angen. (Deddf Llywodraeth Lleol ac Etholiadau 2021 Adran 47 – cyfarfod aml-leoliad) . Cysyllter â'r Clerc am fanylion o leiaf 3 diwrnod llawn cyn y cyfarfod, er mwyn sicrhau fod y trefniadau priodol mewn lle.

Edrychaf ymlaen i'ch gweld.

Yn Gywir

Huw T Jones

CLERC

.....

AGENDA

1. Gair o groeso a derbyn ymddiheuriadau.
2. Cyfle i dderbyn cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda. (Bydd angen cysylltu gyda'r Clerc ymlaenllaw.)
3. Croesawu Dion Roberts, Swyddog Prosiectau Rheoli'n gynaliadwy, Parc Cenedlaethol Eryri – trafod byrddau gwybodaeth a problem canclwm siapan.
4. Cadarnhau cofnodion y Cyfarfod Blynnyddol a gynhaliwyd ar y 25ain o Fai 2022 – gweler yn atodol.
5. Materion yn codi/i'w hadrodd
 - a) Materion Priffyrdd a Chefnffyrdd.
 - b) Arwyddion/ Biniau baw cwn
 - c) Eglwys Llanydawddwy – adroddiad o gyfarfod yno 24 Mehefin - John P Roberts/ Sion Alun Roberts a'r Clerc. *Danfonir gwybodaeth arwahan.*
 - d) Tiroedd comin yr ardal.

- e) Tir ger Dugoed Bach – presenoldeb carafannau
- f) Carreg ar dop Bwlch y Groes – ail-sgwennu geiriau
- g) Problem tai gwag yr ardal
- h) Hysybysfwrdd Mallwyd/magnedau
- i) Eglwys Llanymawddwy – coed yn gor-dyfu/tacluso a chlirio mwswg y llwybr – cael amcangyfrif
- j) Cyfleusterau i blant dros 7 oed yn y Dinas.

6. Materion Cynllunio

7. Materion Cyllid.

Nodi balansau y cyfrifon, a thrafod cyllideb 2022-23.

8. Gohebiaeth

Ymgynghoriad teithio llesol – Cyngor Gwynedd *i'w ddanfôn allan I Gynghorwyr arwahan*

Ymgynghoriad Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Cyngor Gwynedd – *i'w ddanfôn allan I Gynghorwyr arwahan*

Canllaw Cynghorydd da – fersiwn newydd (*danfonwyd i bob Cynghorydd 25/06/22*)

9. Unrhyw fater arall